

Mae garlleg, *Allium sativum*, yn aelod o deulu'r nionyn (winwnsyn). Mae'n cael ei ddefnyddio at ddibenion coginio a dibenion meddyginiaethol. Mae pob garlleg bron yn cael ei dyfu o ewinedd garlleg, er bod ymchwil i gynhyrchu o had gwir wedi bod ar gweill ers rhai blynyddoedd.

SAFLE

Mae angen pridd cynnes â draeniad da ar gyfer garlleg i hybu twf cyflym rhag i'r bylbiau bydru. Mae angen i'r tir fod wedi'i fraenaru'n dda fel nad yw'n cyfyngu ar y bylbiau wrth iddynt chwyddo.

Mae garlleg yn dioddef asidedd yn weddol dda a bydd yn tyfu mewn amrediadau pH o 5.5 i 6.8, gan ffafrio pen uchaf yr amrediad.

Y cylchdro delfrydol ar gyfer garlleg yw chwe blynedd – h.y. bydd o leiaf bum mlynedd pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cnwd gwahanol.

IS-RYWOGAETHAU A CHYLTIFARAU

Mae garlleg yn ymrannu'n ddwy isrywogaeth: gwddf meddal (*Allium sativum sativum*) a gwddf caled (*Allium sativum ophioscorodon*); y gwddf yw'r "coesyn" neu'r coesyn sy'n blodeuo. Garlleg gwddf meddal yw'r rhai a werthir fel arfer yng Nghymru. Garlleg gwddf meddal yw'r rhai hawsaf i'w tyfu, gellir eu plannu gyda pheiriant, maen nhw'n cymryd eu storio'n dda a gellir plethu'r gyddfau meddal. Mae angen mwy o ofal wrth blethu rhai â gyddfau caled (rhaid eu plannu â phen cywir yr ewinedd at i fyny), nid ydynt yn storio cystal â garlleg gwddf meddal ac ni ellir eu plethu oherwydd y gwddf caled. Ond mae rhai gwddf caled yn gallu cynhyrchu bylbiau mwy, gyda lliw piws atyniadol ar y crwyn, a gellir cael pris uchel amdanynt. Dylid seilio'r dewis o isrywogaethau a chyltifarau ar amodau tyfu ac amserlenni llafur/marchnadoedd.

PLANNU

Gellir plannu garlleg yn yr hydref neu'r gwanwyn. Bydd garlleg gaiff ei blannu yn yr hydref (mis Hydref) yn barod i'w gynaeafu tua chwech i wyth wythnos yn gynharach na chnwd a gaiff ei blannu yn y gwanwyn. Dylid plannu planhigion gwanwyn ym mis Chwefror neu fis Mawrth.

Bydd angen tua 5cm o le rhwng bob planhigyn yn y rhes a thua 30cm rhwng rhesi (neu fel sy'n addas ar gyfer y system a'r peiriannau sy'n cael eu defnyddio). Y trwch plannu targed yw 50 o ewinedd fesul m². Dylai top yr ewinedd fod tua 2cm islaw lefel y ddaear.

MAETH

Cymharol ychydig o nitrogen sydd ei angen ar arlleg o gymharu â llawer o gnydau llysiâu. Dylai patrymau gwrteithio fod wedi'u seilio ar ddadansoddiadau pridd a hanes cynyio yn y gorffennol. Lle bo lefelau ffosfforws a photasiwm yn llai na mynegai 3 dylid rhoi gwrtaith i gywiro hynny cyn plannu.

RHEOLAETH

O ran rheoli, y prif waith yn ystod y tymor tyfu yw rheoli chwyn. Gellir gwneud hyn gyda pheiriant fel arfer.

Mae gwahaniaeth barn ynglŷn â'r angen i dynnu'r coesyn sy'n blodeuo. Mae rhai cynhyrchwyr yn honni fod hyn yn arwain at well cnwd, ac eraill yn dweud nad yw'r gwahaniaeth yn werth sôn amdano. Er hynny, mae marchnad bosib i'r coesyndau a gallai fod yn werth ymchwilio i hyn.

PLÂU A CHLEFYDAU

Nid oes gan arlleg fawr o blâu mawr. Mae llyngyr llysiâu (*Ditylenchus dipsaci*) yn gallu achosi colledion difrifol a gallant bara yn y pridd am lawer o flynyddoedd. Arwyddion cyffredin cynnar y llyngyren llysiâu yw dail wedi colli eu lliw a'u hanffurfio, a'r cnwd yn marw yma ac acw. Mae thripsod

winwns (nionod) (*Thrips tabaci*) yn bla arall posib, yn arbennig mewn tymhorau cynnes. Mae difrod cynnar yn ymddangos fel clytiau lliw arian yn y dail.

Mae clefydau posib garlleg yn fwy o her i'r rhai sy'n eu tyfu. Mae malltod gwyn (*Sclerotium cepivorum*) yn glefyd parhaol sy'n gallu byw yn y pridd am ddegawdau. Mae achos o'r clwyf yn peri i fylbiau bydru yn y cae. Mae'r symptomau'n cynnwys dail yn melyn a llwydni fel gwlan cotwm gwyn ar y bylbiau. Ni ddylid defnyddio tir ble mae malltod gwyn i gynhyrchu garlleg (nag unrhyw arllegyn arall).

I ryw raddau, mae dulliau amaethu'n gallu lleihau'r tebygrwydd o lawer math o glefydau garlleg cyffredin. Mae'n bwysig rheoli chwyn yn fanwl a rheoli dyfrio'n ofalus (gan ddyfrio yn y bore a gadael i'r cnwd sychu yn ystod y dydd a pheidio byth â gorddyfrio) er mwyn sicrhau llif da o aer drwy'r cnwd ac i osgoi amodau rhy llaith.

CYNHAEAF

Mae garlleg yn barod i'w gynaeafu pan fo'r rhan fwyaf o'r deiliach wedi troi'n frown. Yn dibynnu ar y tymor tyfu, gall hyn ddiwydd unrhyw bryd o fis Gorffennaf drwedd i ddiwedd Awst. Mae'n hanfodol amseru'r cynaeafu'n gywir: os bydd y bylbiau'n cael eu codi'n rhy gynnar ni fyddant wedi cyrraedd eu maint llawn; os cânt eu gadael yn rhy hir byddant yn rhy fawr, yn hollti ac o bosib yn brennaidd.

Mae garlleg "gwlyb" (wedi ei gynaeafu'n ffres, heb gael ei sychu wedyn), yn gnwd arbennig yn ei hawl ei hun. Nid yw ei flas mor gryf â garlleg sych a gellir cael pris uchel amdano os gallwch gyrraedd at farchnad sy'n ei werthfawrogi.

STORIO

Mae angen i arlleg nad yw'n cael ei werthu'n "wlyb" gael ei sychu cyn ei storio. Mae'n hollbwysig sychu a chaledu'r cnwd cyn ei storio i osgoi colledion. Gyda chnwd bach, gellir gwneud hyn mewn unrhyw le sych, cynnes. Bydd angen cyfleusterau arbennig i sychu a chaledu'r cnwd ar gyfer unedau sy'n cynhyrchu ar raddfa fawr. Y tymheredd gorau ar gyfer sychu yn y lle cyntaf yw 28°C, nes bod y crwyn yn sych. Mae angen cyfnod arall o "galedu" wedyn (25°C am hyd at bythefnos). Unwaith y maen nhw wedi caledu, gellir storio'r bylbiau drwy'r gaeaf mewn lle claeaf (>5°C) sych am hyd at dri mis. Bydd angen eu cadw mewn rhewgelloedd i'w storio am gyfnodau hirach na hyn.

GARLLEG – GOLWG SYDYN	
Amser Plannu:	Hydref <i>neu</i> Chwefror / Mawrth
Dwysedd plannu:	50 ewin / m ² - o fewn rhes – 5cm - rhwng rhesi – 30cm
Plannu i gynaeafu	
Plannu Hydref :	8 mis
Plannu Gwanwyn:	5 mis
Cynnyrch:	18,350kg / ha (~100 bwlb / kg)
Pris manwerthu:	15c – 50c / bwlb

NB – er bod y cynnyrch fesul hectar a'r pris yn edrych yn ddeniadol o bosib, mae'r farchnad yn gyfyngedig a cheir llawer o gystadleuaeth. Gwnewch yn siŵr fod marchnad ar gyfer y cnwd cyn ei blannu.



Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth a roddir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys. CALU yw'r Ganolfan Ddatblygu ar gyfer garddwriaeth, biomas, cnydau newydd, coedlannau fferm a da byw newydd yng Nghymru. Noddir CALU gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswilt Ffermio

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy